

## CORFF ADNODDAU NATURIOL CYMRU

### DEDDF PYSGODFEYDD EOGIAID A DŴR CROYW 1975

#### GORCHYMYN CORFF ADNODDAU NATURIOL CYMRU (CYFYNGU AR DRWYDDEDAU PYSGOTA Â RHWYDI) 2017

Mae Corff Adnoddau Naturiol Cymru, wrth arfer y pwerau a roddwyd iddo gan Adran 26 (1) Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

#### Teitl, dechrau a chymhwys

1 Ynglŷn â'r Gorchymyn Hwn –

- (a) ei enw yw Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Cyfyngu ar Drwyddedau Pysgota â Rhwydi) 2017;
- (b) mae'n dod i rym ar y dyddiad sy'n cael ei gadarnhau gan Weinidogion Cymru; ac
- (c) mae'n berthnasol i'r holl ardaloedd hynny yn Ardal Briodol yr Asiantaeth a ddisgrifir yng Ngholofn (1) yr Atodlen.

#### Dadansoddiad

2 Yn y Gorchymyn Hwn—

mae "Cyfoeth Naturiol Cymru" yn golygu Corff Adnoddau Naturiol Cymru;

mae "Ardal Briodol yr Asiantaeth" yn golygu'r ardal lle mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas â physgodfeydd yn rhinwedd Adran 6 (7A) Deddf yr Amgylchedd 1995;

mae "rhwyd lusg" yn cynnwys rhwyd sâ;

mae "trwydded" yn golygu trwydded bysgota a ddyroddir gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn unol â darpariaethau Adran 25 Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975; ac

mae "swyddog trwyddedau rhwydi" yn golygu swyddog mae'n bosibl y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei benodi o bryd i'w gilydd i wneud penderfyniadau ynglŷn â cheisiadau am drwyddedau ledled yr ardaloedd hynny yn Ardal Briodol yr Asiantaeth a ddisgrifir yng Ngholofn (1) yr Atodlen, gan gynnwys unrhyw ddirprwy wedi'i benodi gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

#### Cyfyngu ar drwyddedau pysgota

4 Mae nifer y trwyddedau a fydd yn cael eu dyrannu gan Cyfoeth Naturiol Cymru, ac ar eu rhan, yn ystod pob blwyddyn i bysgota am eogiaid neu frithyllod yn y flwyddyn honno, ar wahân i frithyllod seithliw, ag offeryn ar wahân i wialen a llinell yn yr ardaloedd hynny yn Ardal Briodol yr Asiantaeth a ddisgrifir yng Ngholofn (1) yr Atodlen, yn cael eu cyfyngu yn unol â darpariaethau Colofn (2) yr Atodlen.

### **Ceisiadau am drwyddedau pysgota**

- 5 (1) Rhaid gwneud pob cais am drwydded ar gyfer pob flwyddyn sy'n dilyn y Gorchymyn hwn i'r Swyddog Trwyddedau Rhwydi, Maes Newydd, Llandarcy, Castell-nedd Port Talbot, SA10 6JQ, erbyn 31 Rhagfyr y flwyddyn flaenorol fan bellach.
- (2) Os yw nifer y ceisiadau am drwyddedau'n uwch na nifer y trwyddedau y gellir eu dyrannu yn unol ag Erthygl 4 y Gorchymyn hwn, yna bydd Erthygl 6 yn berthnasol i'r broses o ddyrannu trwyddedau.

### **Dyrannu trwyddedau pysgota**

- 6 (1) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Erthygl hon, bydd y swyddog trwyddedau rhwydi'n penderfynu ynglŷn â dyrannu trwyddedau ar ran Cyfoeth Naturiol Cymru yn unol â'r meini prawf dyrannu sy'n cael eu pennu gan Cyfoeth Naturiol Cymru o bryd i'w gilydd.
- (2) Rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru gyhoeddi'r meini prawf y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) yr Erthygl hon, a'u gwneud ar gael ar gais gan y Swyddog Trwyddedau Rhwydi, Maes Newydd, Llandarcy, Castell-nedd Port Talbot, SA10 6JQ.
- (3) Yn ddarostyngedig i baragraffau (4) a (5) yr Erthygl hon, wrth ddyrannu trwyddedau mewn perthynas ag unrhyw ran o'r ardaloedd hynny yn Ardal Briodol yr Asiantaeth a ddisgrifir yng Ngholofn (1) yr Atodlen, rhaid i'r swyddog trwyddedau rhwydi roi blaenoriaeth i unrhyw berson sy'n dangos i fodlonrwydd y swyddog trwyddedau rhwydi yntau —
- (a) yn y flwyddyn cyn y flwyddyn y dyrennir y trwyddedau ar ei chyfer ei fod wedi dal trwydded wedi'i dyroddi gan Cyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas ag offeryn sy'n destun y cais cyfredol; a
- (b) bod bywoliaeth y person hwnnw'n ddibynnol ar bysgota.
- (4) Os yw nifer y trwyddedau sydd ar gael i'w dyrannu mewn perthynas ag offeryn a enwir yn yr Atodlen i'w ddefnyddio yn unrhyw ran o'r ardaloedd hynny yn Ardal Briodol yr Asiantaeth a ddisgrifir yng Ngholofn (1) yn annigonol i fodloni'r holl geisiadau a wneir gan yr holl bersonau sydd â'r hawl i dderbyn blaenoriaeth, fel y'i disgrifir ym mharagraff (3) yr Erthygl hon, mae angen dyrannu nifer digonol o drwyddedau ychwanegol i fodloni ceisiadau o'r fath.
- (5) Ni ellir dyrannu mwy nag un drwydded i unrhyw un person mewn perthynas â phob un o'r ardaloedd hynny yn Ardal Briodol yr Asiantaeth a ddisgrifir yng Ngholofn (1) yr Atodlen.
- (6) Wrth ystyried ceisiadau am drwyddedau, mae'n bosibl y bydd y swyddog trwyddedau rhwydi'n gofyn am wybodaeth o'r fath gan ymgeiswyr fel y'i hystyrir

yn berthnasol, ac ar y fath ffurf ag y caiff y swyddog trwyddedau rhwydi ei phennu.

### **Ailddyrannu trwyddedau pysgota**

- 7 (1) Os bydd unrhyw ddeiliad trwydded yn marw ar ôl i'r trwyddedau ar gyfer y flwyddyn gael eu dyrannu mewn perthynas ag unrhyw ran o'r ardaloedd hynny yn Ardal Briodol yr Asiantaeth a ddisgrifir yng Ngholofn (1) yr Atodlen, rhaid gwneud y drwydded honno ar gael i'w haillddyroddi, ac mae'n rhaid ystyried cais am y drwydded honno ac, os yw'n briodol, dyrannu'r drwydded ar sail o'r fath ac yn unol â'r fath weithdrefn ag y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei hystyried yn briodol wedi rhoi ystyriaeth i Erthygl 6 y Gorchymyn hwn.
- (2) Ni chaiff trwydded ddod ar gael i'w haillddyroddi ar ôl i'r trwyddedau gael eu dyrannu ar gyfer y flwyddyn mewn unrhyw amgylchiadau eraill.

### **Trwyddedau'n dod i ben ac yn cael eu diddymu**

- 8 (1) Mae'r Gorchymyn hwn yn dod i ben ar y dyddiad ddeng mlynedd ar ôl y dyddiad y daeth i rym oni bai ei fod yn cael ei ddiddymu ynghynt.
- (2) Mae'r Gorchymynion, a amlinellir isod, yn cael eu diddymu yn gymaint ag y mae pob Gorchymyn yn berthnasol i'r rhannau o'r ardaloedd hynny yn Ardal Briodol yr Asiantaeth a ddisgrifir yng Ngholofn (1) yr Atodlen:
- (a) Gorchymyn Asiantaeth yr Amgylchedd (Cyfyngu ar Drwyddedau Pysgota â Rhwydi) (Cymru) 2008;
  - (b) Gorchymyn Asiantaeth yr Amgylchedd (Cyfyngu ar Drwyddedau Pysgota â Rhwydi) (Cymru) 2009;

(1) <i>Disgrifiad o'r Ardal</i>	(2) <i>Math a Nifer yr Offerynnau a fydd yn cael eu Trwyddedu</i>
<p><b>Yn Afon Dysynni:</b> Yn y rhan honno o'r afon sydd rhwng llinell ddychmygol wedi'i thynnu'n syth dros yr afon dan sylw, ar bwynt tua 400 medr uwchlaw'r bont reilffordd sy'n mynd dros yr afon o dan sylw a'r bont honno.</p>	<p>1 rhwyd lusg</p>
<p><b>Yn Afon Taf:</b> (a) Yn y rhan honno o'r afon sydd rhwng y brif bont ffordd ar y ffordd rhwng Caerfyrddin a Phenfro, a leolir tua 1.6 cilomedr i'r de-orllewin o Sanclêr, a llinell ddychmygol wedi'i thynnu'n syth dros yr afon dan sylw o Wharley Point i Ginst Point; (b) Yn y rhan honno o'r afon sydd rhwng llinell ddychmygol wedi'i thynnu'n syth dros yr afon dan sylw mewn cyfeiriad de-orllewinol o'r Hen Odynau Calch, a llinell ddychmygol wedi'i thynnu'n syth dros yr afon dan sylw o Wharley Point i Ginst Point.</p>	<p>(a) 1 rhwyd gwrwgl  (b) 1 rhwyd gwrwgl</p>
<p><b>Yn Afon Mawddach:</b> Yn y rhan honno o'r afon sydd rhwng Pwll Penmaen, ond ac eithrio'r pwll ei hun, a Phont Network Rail yn Abermo.</p>	<p>3 rhwyd lusg</p>
<p><b>Yn Afon Nyfer:</b> Yn y rhan honno o'r afon sydd rhwng llinell ddychmygol wedi'i thynnu'n syth rhwng Cat Rock a'r Bennett, a llinell ddychmygol wedi'i thynnu'n syth rhwng Pen Dinas a Phen-y-bal.</p>	<p>1 rhwyd lusg</p>
<p><b>Yn Afon Glaslyn ac Afon Dwryd:</b> (a) Yn y rhan honno o Afon Glaslyn sydd rhwng y bont ffordd ar gefnffordd yr A487 dros Arglawdd Tremadog ym Mhorthmadog a llinell ddychmygol wedi'i thynnu'n syth o Ynys Cyngar i Bwynt Harlech; (b) Yn y rhan honno o Afon Dwryd sydd rhwng Tollbont Pont Briwet a llinell ddychmygol wedi'i thynnu'n syth o Ynys Cyngar i Bwynt Harlech.</p>	<p>0 rhwyd lusg</p>

(1) <i>Disgrifiad o'r Ardal</i>	(2) <i>Math a Nifer yr Offerynnau a fydd yn cael eu Trwyddedu</i>
<p><b>Yn Afon Dyfi:</b> Yn y rhan honno o'r afon sydd rhwng y bont reilffordd sy'n mynd dros yr afon dan sylw yn NGR SN 6951597909 a llinell ddychmygol wedi'i thynnu'n syth rhwng ochr ogleddol yr aber yn NGR SN 6212696085 a NGR SN 6215794134 ar ochr ddeheuol aber yr afon dan sylw.</p>	3 rhwyd lusg
<p><b>Yn Afon Conwy:</b> Yn y rhan honno o'r afon sydd rhwng llinell ddychmygol wedi'i thynnu'n syth o lan ddwyreiniol yr afon i'r gorllewin i gydlifiad Afon Ro ac Afon Conwy, a llinell ddychmygol wedi'i thynnu'n syth o Bwynt Penmaen-bach i Drwynygarth.</p>	3 rhwyd lusg
<p><b>Yn Afon Cleddau Ddu ac Afon Cleddau Wen:</b> (a) Yn y rhan honno o Afon Cleddau Ddu sydd rhwng llinell ddychmygol wedi'i thynnu'n union i'r gorllewin dros yr afon dan sylw o aber Minwear Pill a'r bont ffordd (A477) dros Aber Aberdaugleddau; (b) Yn y rhan honno o Afon Cleddau Wen sydd rhwng llinell ddychmygol wedi'i thynnu rhwng dwy lan yr afon dan sylw, yn union o'r gorllewin i'r dwyrain rhwng NGR SM 9676612230 a NGR SM 9700412230, tua 140 medr uwchlaw Bedwater Pill yn Nhŷ Little Milford, a'r bont ffordd (A477) dros Aber Aberdaugleddau.</p>	6 rhwyd gwmpas
<p><b>Yn Afon Teifi:</b> (a) Yn y rhan honno o'r afon sydd rhwng Pont Aberteifi a Phont Llechryd. (b) Yn y rhan honno o'r afon sydd rhwng Pont Aberteifi a llinell ddychmygol wedi'i thynnu'n syth rhwng Carreglydan a Phen Cemaes.</p>	(a)12 rhwyd gwrwgl  (b)3 rhwyd lusg
<p><b>Yn Afon Tywi:</b> (a) Yn y rhan honno o'r afon sydd rhwng llinell ddychmygol wedi'i thynnu'n union i'r dwyrain dros yr afon dan sylw o bwynt ar y lan orllewinol yn NGR SN 363115 i'r dwyrain o Ferry Farm, a llinell ddychmygol wedi'i thynnu'n syth rhwng Wharley Point a phen yr amddiffynfa forol gerrig bloc ar y lan chwith yn y maes carafanau. (b) Yn y rhan honno o'r afon sydd rhwng llinell ddychmygol wedi'i thynnu'n syth dros yr afon</p>	(a)3 rhwyd lusg  (b)8 rhwyd gwrwgl

(1) <i>Disgrifiad o'r Ardal</i>	(2) <i>Math a Nifer yr Offerynnau a fydd yn cael eu Trwyddedu</i>
dan sylw o Orsaf Bwmpio'r Rheilffordd ar bwys Hen Weithiau Tunplat Caerfyrddin yn NGR SN 420205, a llinell ddychmygol wedi'i thynnu'n syth dros yr afon dan sylw yn NGR SN 394137.	

**GWEITHREDWYD** fel Gweithred gan  
**GORFF ADNODDAU NATURIOL CYMRU**  
trwy osod y Sêl Gyffredin yng ngŵydd:

Llofnod: .....

Enw mewn llythrennau

bras:.....

Cyfeiriad: .....

.....

.....

Galwedigaeth: .....